# Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy

## 24 Ionawr 2024

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd S Hancock MBE, Dr M Havard, Dr R Plummer a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

Hefyd yn bresennol: Arwel Evans (Swyddog Cadwraeth Ffermio), Clare Flynn (Swyddog Cadwraeth), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Jamie Leatham (Swyddog Datgarboneiddio), Sarah Mellor (Arweinydd Tîm Cadwraeth / Ecolegydd Arweiniol), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), a Jamie Taylor (Swyddog Awyr Dywyll).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.50am)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolwr Plantlife. Gwnaeth y Cynghorydd S Alderman ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Datgelodd y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd M James fuddiant personol yn adroddiad 01/24, y Diweddariad SDF. Roedd pob Aelod wedi parhau'n bresennol gydol y cyfarfod.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023.

**4. Log Gweithredu**
Nododd yr Aelodau bod pob cam gweithredu wedi'u cwblhau.

**Nodwyd.**

**5. Adroddiad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**
Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Datgarboneiddio a gadarnhaodd bod y Swyddog Datgarboneiddio newydd, Jamie Leatham, bellach yn ei swydd. Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad ar y Gronfa

Datblygu Cynaliadwy oedd yn cynnwys crynodeb o ymrwymiadau ariannol cyfredol y cynllun, map o’r prosiectau a gymeradwywyd, diweddariad ar y prosiectau a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, a sefyllfa ariannol y gronfa am y flwyddyn 2023/24.

Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhaodd y Swyddog bod y tanwariant o'r gronfa wedi'i gario ymlaen yn llwyddiannus i'r flwyddyn ariannol newydd. Eglurodd y bydd y tanwariant o £14,708 yn golygu mai'r cyfanswm fydd ar gael ar gyfer prosiectau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn ariannol newydd fydd £64,708.

Nodwyd bod nifer fechan o brosiectau heb lwyddo i gadw at amserlen y gwaith, a gofynnodd Aelod am i ragor o fanylion am gynnydd y prosiectau hyn gael eu cynnwys yn y golofn 'Diweddariad/ sylw' yn y tabl mewn adroddiadau yn y dyfodol. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys map oedd yn dangos lleoliad daearyddol y rhai oedd yn derbyn cymorth grant y gronfa, a gofynnodd Aelod pam na chafwyd unrhyw geisiadau o ardaloedd Hwlffordd ac Aberdaugleddau. Cadarnhaodd y Swyddog bod y gronfa wedi'i hyrwyddo yn y lle cyntaf ymhlith cymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag gallai prosiectau y tu allan i'r ffin hefyd fod yn gymwys pe bai'r rhai fyddai’n elwa o’r grant yn dod o'r Parc Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Swyddog bod croeso i'r Aelodau gyfeirio prosiectau cymwys o'r tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol at yr Awdurdod gan y byddai Swyddogion yn hapus i drafod y prosiectau ymhellach gyda’r ymgeiswyr.

Fel y gofynnwyd yn y cyfarfod blaenorol, gwahoddwyd y Swyddog Awyr Dywyll i roi cyflwyniad byr ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y prosiect Awyr Dywyll a ariennir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Roedd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg byr o'r prosiect, manylion yr achredu perthnasol, crynodeb o nodau'r prosiect, y camau nesaf, a hefyd y digwyddiadau ymgysylltu ar y prosiect. Roedd yr Aelodau yn cydnabod pa mor bwysig yw’r prosiect, a chytunwyd bod angen llawer o waith i ennyn ymwybyddiaeth o effeithiau llygredd golau.

**Nodwyd.**

**6. Diweddariad ar y Prosiect Gwyrddu Amaethyddiaeth**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Cadwraeth Ffermio a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y prosiectau cyfredol a’r prosiectau sydd wedi'u cwblhau, ymrwymiadau ariannol presennol y cynllun Gwyrddu Amaethyddiaeth, a dadansoddiad o'r cyllid dros dair blynedd.

Cyflwynodd y Swyddog fanylion pellach ar y modd yr oedd pob prosiect parhaus yn dod yn ei flaen, a dywedodd mai ei fwriad oedd cynnwys mwy o fanylion am y camau ymlaen mewn adroddiadau yn y dyfodol. Nodwyd bod prosiect Hafod Grove wedi'i lesteirio gan faterion capasiti grid, a dywedodd Aelod y gallai'r profiad hwn fod yn fater i'r Awdurdod ddysgu ohono. Cytunodd y Swyddog a chadarnhaodd y byddai'n cadw hynny mewn cof.

**Nodwyd.**

**7. Eithrio’r cyhoedd**

Nodwyd y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif wrth drafod y ceisiadau, ac felly gofynnwyd am eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**8. Ceisiadau ‘Cysylltu'r Arfordir’ i'w Hystyried**

Croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd Tîm Cadwraeth / Ecolegydd Arweiniol a gyflwynodd adroddiad oedd yn cyflwyno'r Aelodau i'r Peilot Cysylltu'r Arfordir a’r ceisiadau a dderbyniwyd oedd yn fwy nag £20,000. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y broses sgorio a blaenoriaethu grantiau ac yn rhoi dadansoddiad o bob cais oedd angen cymeradwyaeth yr Aelodau ar eu cyfer. Nodwyd bod enw’r ymgeisydd ac enw'r fferm ym mhob cais wedi'u hepgor o'r adroddiad, a chadarnhaodd y Swyddog bod hyn wedi'i wneud at ddibenion diogelu data. Rhoddwyd crynodeb o'r system sgorio i'r Aelodau, ac oherwydd cymhlethdod y system, cadarnhaodd y Swyddog y byddai adroddiad yn cael ei gadw ar gofnod pe byddai angen eglurhad pellach yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, cadarnhaodd y Swyddog bod cyfraddau safonol wedi'u defnyddio ar gyfer pob cais.

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** ar gynnig Dr R Plummer ac a eiliwyd gan Dr M Havard, i gymeradwyo’r cynigion canlynol mewn egwyddor hyd at y gwerth mwyaf a gyflwynwyd:

| | Rhif cyf | Math o Fferm | Trosolwg o'r Cynnig | Uchafswm y Cyllid a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| a) | CTC/01/PC | Fferm laeth arfordirol gydag arallgyfeirio | Rheoli llethr arfordirol, creu cynefin gweirglodd newydd, treialu hau planhigion llysieuol ac adfer perthi. | £31,618.53 |
| b) | CTC/02/DH | Fferm arfordirol gymysg tir âr a da byw | Cynnal bywyd gwyllt sy'n ddibynnol ar gynefin tir âr prin, cynorthwyo i reoli cynefinoedd cymysg presennol o rostir a glaswellt y gweunydd, ac adfer perthi. | £30,801 |
| c) | CTC/03/LF | Fferm gymysg o dda byw a thir âr | Rheoli SoDdGA arfordirol a chynefin lled-naturiol, adnewyddu ffensys a chymorth parhaus i'r ffermwr. Creu 2 o borfeydd a llethr arfordirol gyfoethog o drychfilod. | £25,527.50 |
| d) | CTC/04/SST | Fferm da byw arfordirol | Mae'r cais hwn yn cyfuno ac yn cynnal y gwaith o reoli llethr arfordirol presennol a phorfeydd cyfoethog o rywogaethau gerllaw'r Llwybr Cenedlaethol. | £23,332.50 |
| e) | CTC/05/SPK | Fferm da byw morydol | Rheoli porfa a gweirglodd hynafol, prin a chyfoethog o rywogaethau, hau gwndwn llysieuol mwy cyfoethog ac adfer perthi. | £25,730 |
| f) | CTC/06/SHF | Fferm Laeth Arfordirol | Ategu cilio amaethu dwys o ben llethrau arfordirol drwy ddefnyddio technegau amaethu manwl; cynnal bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar gynefin âr prin. | £25,150 |
| g) | CTC/07/BIF | Fferm gymysg arfordirol tir âr a da byw | Rheoli llethr arfordirol helaeth a gweirgloddiau sy’n ffurfio ystod werthfawr o gynefin lled naturiol, a rhoi cymorth parhaus i’r ffermwr. | £23,640 |

**9. Newidiadau Arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r newidiadau arfaethedig i enw a chylch gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a'r rhesymau dros gynnig yr adolygiad.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag enw'r Pwyllgor, a chytunwyd mai 'Y Pwyllgor Grantiau' fyddai'r dewis mwyaf priodol. Cytunodd y Prif Weithredwr a chadarnhaodd y byddai adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth derfynol i'r newidiadau yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Grantiau a gynhaliwyd ar 08 Mai 2024 heb eu diwygio. |